Children in Wales
Plant yng Nghymru

CHAPPIE NETWORK INFORMATION BULLETIN
BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Yn y Rhifyn Yma / In This Issue

INQUIRIES

NEWS

RESEARCH

RESOURCES

FIREWORKS NIGHT

YMHOLIADAU

NEWYDDION

YMCHWIL

ADNODDAU

NOSON TAN GWYLLT

DIGWYDDIADAU A HYFFORDDIANT

Cysylltiadau / Links

CHAPPIE Network Webpage

Hydref / October 2009

Cliciwch yma ar gyfer y fersiwn Gymraeg.

This is the latest edition of the Child Accident Prevention Practice and Information Exchange Network Information Bulletin prepared by Children in Wales. It contains the latest news, research and reports from the field of Child Accident Prevention.

Diary Marker

CHAPPIE conference on 10th March 2010
We have yet to set the theme for this conference. In order to ensure the conference is as useful as possible for those working to reduce injuries, please forward any topic suggestions onto Karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk
Please forward all suggestions before 30th November

If you do not wish to receive this occasional e-briefing, please let us know by emailing info@childreninwales.org.uk

If you feel your colleagues would benefit from this information, please forward.

INQUIRIES

Welsh Affairs Committee: Pre-legislative scrutiny of the proposed Legislative Competence Order in Council on Housing relating to Domestic Fire Safety
The Welsh Affairs Committee asks for written submissions as part of its pre-legislative scrutiny of the proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing) Order 2009, relating to Domestic Fire Safety.

NEWS

C&YP Now: Children more likely to be killed on the road in poor areas

Children from the most deprived areas are four times more likely to be killed or injured on the roads than those from the least deprived areas, a report by MPs has found. (22/10/09)

BBC: Rural poor children lack services

Children from the poorest families in rural Wales are missing out on services available to disadvantaged young people in urban areas, research has found. (17/10/09)

Guardian: Children denied school trips over teachers' fears of being sued

Local authorities paid out just £293.44 per year following problems on school trips, research finds. (02/10/09)

BBC: New health boards to control NHS

A new way of running the NHS in Wales has come into force, with the 22 local health boards set up six years ago being scrapped. (01/10/09)

BBC:
New laws to ban child sunbed use

Children would be banned from using sunbeds in Wales under new laws to be proposed by the assembly government. (30/09/09)

Guardian: Drink and drugs a leading cause of youth deaths

The deaths of more than 3,000 young people in the UK every year could be prevented and many are precipitated by Britain's drink and drugs culture, a leading child health expert claims. (11/09/09)

RESEARCH

NHS Choices: Cot death risk of shared sofa sleeping

Several newspapers have reported on research into cot deaths, or sudden infant death syndrome (SIDS). The Daily Telegraph and The Times report that half of cot deaths "happen when babies are sleeping with their parents", while the Daily Express says that one in four cot deaths is linked to "swaddling of babies". This 'Behind the headlines' article examines the evidence behind this report.

Pediatrics: Effectiveness of Belt Positioning Booster Seats: An Updated Assessment

The objective of this study was to provide an updated estimate of the effectiveness of belt-positioning booster (BPB) seats compared with seat belts alone in reducing the risk for injury for children aged 4 to 8 years.

RESOURCES

RoSPA: Annual Review 2008 - Saving lives and reducing injuries...In the Home

Overview of RoSPA's home safety work during 2008.

RoSPA: Safe at Home Video

A short film highlighting the dangers facing under-fives in the home has been released by the Royal Society for the Prevention of Accidents.

FIREWORKS NIGHT

www.saferfireworks.com

Website from RoSPA which includes the Firework Code, a guide on how to organise a display and how to deal with specific types of fireworks from rockets to Catherine Wheels.

www.berr.gov.uk/fireworks

Information about firework legislation and using fireworks safely.

EVENTS & TRAINING

Events

CHAPPIE Network Event - Measuring Success in Injury Prevention

10 November 2009, Cardiff

This network event will look in detail at how we evaluate home accident prevention work in Wales and how we can improve.

Children in Wales Annual Conference & AGM

24-25 November 2009

Rights, Indicators and Outcomes: Measuring the wellbeing of children and young people in Wales.

CHAPPIE Network Conference

9 March 2010, Cardiff

More details will follow shortly but to register your interest in the meantime, please email childsafety@childreninwales.org.uk

Training

Effective Home Safety Equipment Schemes for Early Years

11 November 2009, Cardiff
3 March 2010, Rhyl
16 March 2010, Carmarthen

This practical training course will enable participants to identify effective home safety equipment for children under five and to understand the principle, practicalities and challenges of implementing and sustaining an effective home safety equipment scheme.

Reducing Home Accidents in Early Years - Effective Interventions

28 January 2010, Rhyl
9 February 2010, Carmarthen

This one-day participative training course draws on research and evidence-based interventions to help practitioners understand and address home accident prevention, focusing on the most serious or disabling accidents and methods of intervention.

Children in Wales: Training Brochure Autumn 2009 - Spring 2010

BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Hwn yw'r rhifyn diweddaraf o Fwletin Gwybodaeth y Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE), a baratowyd gan Plant yng Nghymru. Mae'n cynnwys y newyddion, ymchwil a'r adroddiadau diweddaraf o faes Atal Damweiniau i Blant.

Marciwr Dyddiadur

Cynhadledd CHAPPIE ar y 10fed o Fawrth, 2010
'Rydym yn dal heb bennu'r thema ar gyfer y gynhadledd hon. Er mwyn sicrhau bod y gynhadledd mor ddefnyddiol â phosibl i'r sawl sy'n gweithio i leihau anafiadau, a fyddech cystal ag anfon ymlaen unrhyw awgrymiadau sydd gennych am bwnc at Karen. mcfarlane@plantyngnghymru.org.uk

Anfonwch ymlaen bob awgrym cyn y 30ain o Dachwedd, os gwelwch yn dda.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-gyfarwyddiad achlysurol hwn, gadewch inni wybod, os gwelwch yn dda, drwy e-bostio i info@plantyngnghymru.org.uk

Os ydych yn teimlo y byddai'ch cydweithwyr yn elwa o'r wybodaeth hon, cofiwch ei hanfon ymlaen.

YMHOLIADAU

Y Pwyllgor Materion Cymreig: Craffu cyn y broses ddeddfu ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor) arfaethedig ynghylch Tai yn gysylltiedig â Diogelwch Tân yn y Cartref.
Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig fel rhan o'i waith craffu cyn y broses ddeddfu ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) arfaethedig 2009, yn gysylltiedig â Diogelwch Tân yn y Cartref.

NEWYDDION

Children & Young People Now: Mae plant yn fwy tebygol o gael eu lladd ar y ffyrdd mewn ardaloedd tlawd. Mae plant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn bedair gwaith fwy tebygol o gael eu lladd neu'u hanafu ar y ffyrdd na'r sawl sydd o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, fe ganfu adroddiad gan Aelodau Seneddol. (22/10/09)

BBC: Mae plant tlawd cefn gwlad yn brin o wasanaethau. Mae plant o'r teuluoedd tlotaf yng nghefn gwlad Cymru yn colli ar wasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc difreintiedig mewn ardaloedd trefol, fe ganfu ymchwil. (17/10/09)

Guardian: Gwarafun teithiau ysgol i blant oherwydd ofnau athrawon o gael eu herlyn. Fe dalodd awdurdodau lleol ond £293.44 y flwyddyn yn dilyn problemau ar deithiau ysgol, fe genfydd ymchwil. (02/10/09)

BBC: Byrddau iechyd newydd i reoli'r GIG Mae yna ffordd newydd o reoli'r GIG yng Nghymru wedi dod i rym, gyda'r 22 o fyrddau iechyd lleol a sefydlwyd chwe blynedd yn ôl yn cael eu diddymu. (01/10/09)

BBC: Deddfau newydd i wahardd y defnydd o welyau haul gan blant. Fe fyddai plant yn cael eu gwahardd rhag defnyddio gwelyau haul yng Nghymru o dan ddeddfau newydd sydd i'w cynnig gan Lywodraeth y Cynulliad. (30/09/09)

Guardian: Mae diod a chyffuriau yn un o brif achosion marwolaethau ymysg ieuenctid. Fe allai marwolaethau mwy na 3,000 o bobl ifanc yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn gael eu hosgoi, ac mae llawer yn cael eu hachosi gan ddiwylliant diod a chyffuriau Prydain, mae arbenigwr iechyd plant blaenllaw yn honni. (11/09/09)

YMCHWIL

NHS Choices: Perygl o farwolaethau yn y crud o gyd-gysgu ar y soffa.

Mae amryw o bapurau newydd wedi adrodd am ymchwil i farwolaethau yn y crud, neu Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod (SIDS). Mae'r Daily Telegraph a'r Times yn adrodd bod hanner marwolaethau yn y crud "yn digwydd pan fo babanod yn cysgu gyda'u rhieni", tra bod y Daily Express yn dweud bod un o bob pedwar marwolaeth yn y crud yn gysylltiedig â "rhwymo babanod mewn cadachau". Mae'r erthygl 'Tu ôl i'r penawdau' hon yn archwilio'r dystiolaeth y tu ôl i'r adroddiad hwn.

Paediatric: Effectiveness of Belt Positioning Booster Seats: An Updated Assessment

Amcan yr astudiaeth hon oedd darparu amcangyfrifiad wedi'i ddiweddaru o effeithiolrwydd seddau hybu lleoli'r gwregys (BPB) o gymharu â gwregys diogelwch yn unig mewn lleihau'r perygl o anaf i blant 4 i 8 mlwydd oed.

ADNODDAU

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau: Adolygiad Blynyddol 2008 - Achub bywydau a lleihau anafiadau...Yn y Cartref

Trosolwg ar waith diogelwch yn y cartref gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau yn ystod 2008.

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau: Fideo Diogel Gartref

Mae ffilm fer yn amlygu'r peryglon sy'n wynebu plant bach o dan bum mlwydd oed yn y cartref wedi'i chyhoeddi gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau.

NOSON TÂN GWYLLT

www.saferfireworks.com

Gwefan oddi wrth y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau sy'n cynnwys y Cod Tân Gwyllt, canllaw ynglyn â sut i drefnu arddangosfa a sut i ymdrin â mathau penodol o dân gwyllt, o rocedi i Olwynion Catherine.

www.berr.gov.uk/fireworks

Gwybodaeth am ddeddfwriaeth tân gwyllt a defnyddio tân gwyllt yn ddiogel.

DIGWYDDIADAU A HYFFORDDIANT

Digwyddiadau

Digwyddiad Rhwydwaith CHAPPIE - Mesur Llwyddiant o ran Atal Anafiadau

10 Tachwedd 2009, Caerdydd

Fe fydd digwyddiad y rhwydwaith hwn yn edrych yn fanwl ar sut 'rydym yn gwerthuso gwaith atal damweiniau yn y cartref yng Nghymru a sut y gallwn ni wella.

Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Plant yng Nghymru

24-25 Tachwedd 2009

Hawliau, Dangosyddion a Chanlyniadau: Mesur lles plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cynhadledd Rhwydwaith CHAPPIE

9 Mawrth 2010, Caerdydd

Fe fydd mwy o fanylion yn dilyn yn go fuan ond er mwyn cofrestru'ch diddordeb yn y cyfamser, a fyddech cystal ag e-bostio childsafety@plantyngnghymru.org.uk

Hyfforddiant

Cynlluniau Cyfarpar Diogelwch Cartref Effeithiol ar gyfer Blynyddoedd Cynnar

11 Tachwedd 2009, Caerdydd

3 Mawrth 2010, Y Rhyl

16 Mawrth 2010, Caerfyrddin

Fe fydd y cwrs hyfforddi ymarferol hwn yn galluogi cyfranogwyr i nodi cyfarpar diogelwch cartref effeithiol i blant o dan bum mlwydd oed ac i ddeall yr egwyddor, ymarferoldeb a heriau o weithredu a chynnal cynllun cyfarpar diogelwch cartref effeithiol.

Gostwng Damweiniau yn y Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar - Ymyriadau Effeithiol

28 Ionawr 2010, Y Rhyl

09 Chwefror 2010, Caerfyrddin

Fe fydd y cwrs hyfforddi cyfranogol undydd hwn yn gwneud defnydd o ymchwil ac ymyriadau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth i gynorthwyo ymarferwyr i ddeall a rhoi sylw i atal damweiniau yn y cartref, gan ganolbwyntio ar y damweiniau mwyaf difrifol neu sy'n anablu a dulliau o ymyrryd.

Plant yng Nghymru: Hyfforddiant Pamffledyn yr Hydref 2009 - y Gwanwyn 2010

Thank you,
Diolch,

Karen McFarlane

Development Officer: Child Safety
Swyddog Datblygu: Diogelwch Plant

If you would like to join the CHAPPIE network, please click here.

Os hoffech ymuno â'r Rhwydwaith CHAPPIE, cliciwch yma.

SafeUnsubscribe®

Constant Contact
TRY IT FREE